**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (193)**
**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

.....................................

**Eitem 1 -** Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Eitem 3** - Cynnig i gymeradwyo newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant o dan Reol Sefydlog 21

Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gyda phleidleisiau ar wahân.
**Eitem 4** – Cynnig  i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu Awdurdod Datblygu Cymru i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 5** – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu Bwrdd Croeso Cymru i Brif Weinidog Cymru

Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gyda phleidleisiau ar wahân.
**Eitem 6** – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu ELWa i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 7 –** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu ACCAC i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 8 -** Dadl ar Gynigion am Ddeddfwriaeth Sylfaenol yn unol â Rheol Sefydlog 33.11

**Eitem 9 -** Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru

[**Eitem 10 -** Dadl fer - NDM2939 Leighton Andrews (Rhondda): Cefnogi Rhieni: Dysgu o Arfer Gorau]

………………………………

## [Eitem 1 - Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus]

………………………………

## Eitem 2 - Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

………………………………

## Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant o dan Reol Sefydlog 21

**NDM2941 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.6, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 14 Mawrth gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedau, Sue Essex.

Gosodwyd y tablau canlynol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth.

Dengys Tabl 1 y newidiadau a gynigir i ddarpariaeth bresennol y Cynulliad o fewn y Prif Grwpiau Gwariant;

Dengys Tabl 2 y darpariaethau diwygiedig a gynigir ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan roi ystyriaeth i drosglwyddiadau i Adrannau'r Llywodraeth ac ohonynt; a

Dengys Tabl 3 y dadansoddiad a gynigir o'r ddarpariaeth dwyn-ymlaen fesul Prif Grwp Gwariant a'r ddarpariaeth derfynol a gynigir ar gyfer 2005-06 ar gyfer pob Prif Grwp

Gwariant.

Dogfennau Ategol
Nodyn Esboniadol
Tabl 1
Tabl 2
Tabl 3

....................................

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gyda phleidleisiau ar wahân**

## Eitem 4 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu Awdurdod Datblygu Cymru i Brif Weinidog Cymru

**NDM2943 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad, y swyddogaethau sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru dan Erthygl 2 Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw. Bydd y swyddogaethau'n cael eu dirprwyo ar 1 Ebrill 2006.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog Cynulliad priodol, ac i staff.

*Ceir copi o Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 yn y cyswllt hwn:* https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053226e.htm

....................................

## Eitem 5 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu Bwrdd Croeso Cymru i Brif Weinidog Cymru

**NDM2944 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad, y swyddogaethau sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru dan Erthygl 2 Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw. Bydd y swyddogaethau'n cael eu dirprwyo ar 1 Ebrill 2006.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog Cynulliad priodol, ac i staff.

*Ceir copi o Orchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 yn y cyswllt hwn: https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053225e.htm*

......................................

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gyda phleidleisiau ar wahân.**

## Eitem 6 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu ELWa i Brif Weinidog Cymru

**NDM2945 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad, y swyddogaethau sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant dan Erthygl 2 Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw. Bydd y swyddogaethau'n cael eu dirprwyo ar 1 Ebrill 2006.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog Cynulliad priodol, ac i staff.

*Ceir copi o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i*

*Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 yn y cyswllt hwn: [https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053238e.htm](https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053238e.htm)*

**....................................**

## Eitem 7 – Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Diddymu ACCAC i Brif Weinidog Cymru

**NDM2946 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu dan adran 62(1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad, y swyddogaethau sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru dan Erthygl 2 Gorchymyn Cyngor Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw. Bydd y swyddogaethau'n cael eu diprwyo ar 1 Ebrill 2006.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog Cynulliad priodol, ac i staff.

*Ceir copi o Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 yn y cyswllt hwn: [https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053239e.htm](https://www.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053239e.htm)*

**....................................**

## Eitem 8 – Dadl ar Gynigion am Ddeddfwriaeth Sylfaenol yn unol â Rheol Sefydlog 33.11 – ni chyflwynwyd cynnig

**....................................**

## Eitem 9 - Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru

**NDM2940 Dafydd Elis-Thomas (Meirionnydd Nant Conwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
[Adroddiad y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru]

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 2 + 3)**
**(4, 5 + 6)**
**(7, 8, 9, 10, 11 + 12)**
**(13 + 14)**
**(15 + 16)**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

(a) Cymal 7, tudalen 4, llinell 36, dileu'r testun o'r ail 'region' hyd at ddiwedd llinell 38, a gwneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol drwy'r Mesur.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Tudalen 18, llinell 6, dileu testun Cymal 29, a mewnosod:

'The standing orders shall include provision for ensuring that, in appointing members to

committees and sub-committees, regard is had to the balance of political parties in the Assembly.'

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

a) Cymal 102, tudalen 57, llinell 5, ar y diwedd mewnosod:

(3A) If a resolution passed by the Assembly under section 103 includes the text of the question which the Assembly proposes should be included on the ballot paper at the referendum, that text shall be included in any recommendation made to Her Majesty in Council to make an Order in Council under subsection (1).

b) Cymal 103, tudalen 57, llinell 28, dileu'r testun o 'which' hyd at ddiwedd llinell 30 a mewnosod 'a majority of Assembly Members present and voting vote in favour'.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mai ystyriaethau gwleidyddol yw'r prif gymhelliad y tu ôl i gynnwys Mesur Llywodraeth Cymru yn hytrach nag anghenion pobl Cymru ac yn credu mai drwy weithredu argymhellion Comisiwn Richard y caiff buddiannau Cymru eu gwasanaethu orau.

*Gellir gweld argymhellion Comisiwn Richard yn:*
*http://www.richardcommission.gov.uk/content/template.asp?ID=/content/finalreport/index-e.asp*

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyddo i sicrhau bod ynni yn faes y mae gan y Cynulliad bwerau drosto a'i bod wedi colli'r cyfle y mae'r Mesur yn ei ddarparu i ehangu'r meysydd y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu pan ddaw Rhan 4 y Mesur i rym y dylid gostwng nifer yr ASau sy'n cynrychioli etholaethau Cymru yn unol â hynny.

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi petai ymgeisydd mewn etholaeth yn marw, nid yn unig y byddai oedi cyn ethol aelod dros yr etholaeth honno ond na fyddai Cymal 8(2) yn caniatáu ethol aelodau'r rhestr ranbarthol berthnasol, ac yn credu y dylid diwygio'r mesur i ganiatáu, mewn sefyllfa o'r fath:

a) y dylid rhoi 48 awr i Swyddog Enwebu Dirprwyedig yr ymgeisydd a fu farw enwebu ymgeisydd arall ar gyfer y sedd honno; a

b) y dylid ailosod amserlen yr etholiad ar gyfer y sedd honno i sicrhau y caiff aelod ei ethol ar gyfer y sedd etholaethol honno a'r seddi rhestr perthnasol cyn pen 21 diwrnod i ddyddiad y bleidlais wreiddiol.

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer ethol Aelodau Cynulliad drwy'r dull Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn hytrach na'r system aelod ychwanegol.

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru fel bo'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a Phrif Weinidog Cymru yn cael eu hethol ar yr un diwrnod.

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Cymal 25, tudalen 16, llinell 9, ar y diwedd mewnosod – 'or

(c) different political groups both of which are political groups without an executive role.'

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Cymal 94, tudalen 52, llinell 22, ar y diwedd mewnosod:

(8A) A refusal that falls within (7)(b) only applies if the Secretary of State has reason to believe that the Order in Council -

(a) would have an adverse effect on any matter which is not specified in Part 1 of Schedule 5,

(b) might have a serious adverse impact on water resources in England, water supply in England or the quality of water in England,

(c) would have adverse impact on the law as it applies in England, or

(d) would be incompatible with any international obligation or the interests of defence or national Security.

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Cymal 103, tudalen 57, llinell 24, dileu: ‘moved by the First Minister or a Welsh Minister appointed under section 48’.

**13. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd Mesurau Cynulliad yn cael effaith debyg i Ddeddf Seneddol ac o’r herwydd yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Dileu Rhan 3, tudalennau 50-56, Cymalau 92-101.

**14. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i swydd Comisiynydd Plant Cymru gael ei gweld i fod yn ddiduedd ac yn credu felly y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru yn y ffordd a ganlyn:

Cymal 16, tudalen 10, llinell 1, ar y diwedd mewnosod: ‘or

(f) holds the office of Children’s Commissioner for Wales.’

**15. John Marek (Wrecsam)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru i ddarparu pwer i’r Cynulliad roi cyfarwyddiadau i Weinidogion Cymru gyda golwg ar arfer eu swyddogaethau.

**16. John Marek (Wrecsam)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Cymru i alluogi’r Cynulliad i amrywio’r darpariaethau sy’n ymwneud ag aelodaeth Comisiwn y Cynulliad.

**......................................**

## Eitem 10 - Dadl fer - NDM2939 Leighton Andrews (Rhondda): Cefnogi Rhieni: Dysgu o Arfer Gorau

**......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 28 Mawrth 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**